# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## RHAN 1

### Amodau Trwydded

**Amod 1: Gwella a Chyfoethogi**

**1.** Rhaid i'r deiliad trwydded weithredu rhaglen wella a chyfoethogi a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol.

**Amod 2: Cymdeithasoli**

**2.** Rhaid i'r deiliad trwydded weithredu rhaglen gymdeithasoli a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol.

**Amod 3: Iechyd**

**3.** Rhaid i'r deiliad trwydded gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu cŵn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd.

**Amod 4: Paru**

**4.** Rhaid i'r deiliad trwydded sicrhau nad yw gast fridio—

(a) yn cael ei pharu cyn ei bod yn 12 mis oed;

(b) yn rhoi genedigaeth i fwy nag un torllwyth o gŵn bach o fewn cyfnod o 12 mis; nac

(c) yn rhoi genedigaeth i gyfanswm o fwy na 6 torllwyth o gŵn bach.

**Amod 5: Newid perchnogaeth ci bach**

**5.** Rhaid i'r deiliad trwydded barhau'n berchennog ac yn feddiannwr unrhyw gi bach yn y fangre a feddiannir gan y deiliad trwydded hyd nes bo'r ci bach yn 56 diwrnod oed, o leiaf.

**Amod 6: Gofynion cofnodi geist bridio**

**6.**—(1) Rhaid i'r deiliad trwydded gynnal cofnod ysgrifenedig mewn perthynas â phob gast fridio a gedwir, gan nodi—

(a) ei henw;

(b) ei dyddiad geni;

(c) ei brid;

(d) disgrifiad ffisegol ohoni, gan gynnwys ei lliw a'i nodweddion adnabod;

(e) ei statws iechyd;

(f) manylion paru, gan gynnwys;

(i) mewn perthynas â'r tad, yr wybodaeth y mae is-baragraff 1(a) i (e) yn ei gwneud yn ofynnol;

(ii) mewn perthynas â phob ci bach a anwyd—

(aa) dyddiad geni;

(bb) pa bryd y trosglwyddwyd perchenogaeth, ac enw a chyfeiriad y perchennog newydd.

(2) Pan drosglwyddir perchenogaeth gast fridio, rhaid i'r deiliad trwydded gofnodi enw, cyfeiriad a rhif teleffon y perchennog newydd yn y cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) a rhaid i'r deiliad trwydded ddarparu copi o'r cofnod hwnnw i'r perchennog newydd a chadw copi ohono ei hunan.

(3) Rhaid i'r cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) fod ar gael i'w archwilio a rhaid i'r deiliad trwydded ddal gafael ynddo drwy gydol oes yr ast fridio.

## Amod 7: Gofynion cofnodi cŵn bach

**7.**—(1) Rhaid i'r deiliad trwydded gynnal cofnod ysgrifenedig sy'n cadarnhau'r manylion canlynol mewn perthynas â phob ci bach sydd yn y fangre a feddiannir gan y deiliad trwydded:

(a) rhyw;

(b) dyddiad geni;

(c) brid;

(d) disgrifiad ffisegol gan gynnwys lliw a nodweddion adnabod;

(e) statws iechyd;

(f) mewn perthynas â'r fam, yr wybodaeth y mae amod 6(1)(a) i (e) yn ei gwneud yn ofynnol; a

(g) mewn perthynas â'r tad, yr wybodaeth y mae amod 6(1)(a) i (e) yn ei gwneud yn ofynnol.

(2) Pan drosglwyddir perchenogaeth ci bach, rhaid i'r deiliad trwydded gofnodi enw, cyfeiriad a rhif teleffon y perchennog newydd yn y cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) a rhaid i'r deiliad trwydded ddarparu copi o'r cofnod hwnnw i'r perchennog newydd a chadw copi ohono ei hunan.

(3) Rhaid i'r cofnod y cyfeirir ato yn is-baragraff (1) fod ar gael i'w archwilio gan yr awdurdod lleol ar unrhyw adeg, a rhaid i'r deiliad trwydded ddal gafael ynddo am 3 blynedd ar ôl geni'r ci bach.